# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Amlwch**

**Ysgol Gynradd Amlwch**
**Ffordd Pen-y-bonc**
**Amlwch**
**LL68 9DU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

09/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Amlwch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd sesiynol |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Amlwch |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>21 Hydref 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried yr amgylchedd nac arweinyddiaeth na rheolaeth yn llawn.

Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i lesiant y plant. Mae'r plant yn hapus ac maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni/gofalwyr. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn gyson gadarnhaol ac o ganlyniad mae'r plant yn ymgysylltu â'u gweithgareddau ac yn ymddiddori ynddynt. Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn mwynhau gwneud dewisiadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae eu barn a'u diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Mae gan y staff agwedd gynnes a chyfeillgar at roi gofal. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Mae gweithgareddau wedi'u trefnu'n dda ac yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach ac yn datblygu sgiliau corfforol a sgiliau echddygol manwl y plant yn dda trwy weithgareddau dan do a rhai awyr agored. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae amrywiaeth o adnoddau a theganau sy'n briodol i oedran. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn rheoli Cylch Meithrin Amlwch yn addas. Maent wedi gwneud nifer o welliannau arwyddocaol sydd wedi creu canlyniadau gwell i blant, fodd bynnag, mae rhai agweddau y mae angen eu datblygu ymhellach. Mae'r lleoliad yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a darperir y 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

## Llesiant

Mae’r plant yn cymryd rhan yn dda ac yn cael amser a chymorth da i wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain.  Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mwynhau dweud wrthym pwy yw eu ffrindiau.  Maent yn hoffi'r rhyddid o gael byrbryd pan fyddant ei eisiau ac yn trefnu eu hunain yn dda ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.  Ymatebir i'w ceisiadau gan staff mewn modd amserol ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r trefniadau arferol, er enghraifft, pan fyddant yn cyrraedd maent yn chwilio yn y fasged am eu llun ac yn ei binio ar y bwrdd i ddangos eu bod yn bresennol.  Mae'r plant yn ymolchi eu dwylo cyn bwyta neu ar ôl chwarae blêr ac yn rhoi'r tywel papur yn y bin a ddarperir.  Maent yn mynd at y staff yn rhwydd ac yn eistedd ar eu pen-glin i gael eu cofleidio pan fo angen.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac â'r staff.  Maent yn gwrtais ac yn defnyddio moesau da trwy ddweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’.  Maent yn cydweithio'n dda i dacluso, er enghraifft, maent yn rhoi eu platiau a'u cwpanau yn y sinc, yn tacluso eu teganau a'u hoffer gyda pharch.  Maent yn ffurfio cyfeillgarwch newydd ac yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn briodol.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig.  Mae dau ffrind yn archwilio'r propiau yn ardal y gegin ac yn gosod eu golygfa eu hunain yn smalio gwneud bwyd ac yn gofalu am y doliau.  Mae plentyn yn cael ei swyno gan greaduriaid y môr yn y blwch dŵr ac yn cymryd ei amser i archwilio pob un.  Maent yn arbrofi â'r morfil tegan i wneud iddo dasgu yn y dŵr.  Mae ei ffrind yn mwynhau gwylio ac yn dechrau enwi creaduriaid y môr.  Maent yn dysgu am wahaniaethau mewn maint ac mae plentyn yn dangos i ni fod y dolffin yn llai na’r morfil.

Mae’r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn gadarnhaol.  Mae plentyn yn canolbwyntio'n dda wrth weithio allan sut i edafu'r bobinau pren ac yn teimlo'n falch o'i gyflawniadau.  Maent yn mwynhau ymarfer defnyddio eu sgiliau synhwyraidd, er enghraifft, mae plentyn yn dewis pêl ac yn dangos i ni sut y gall redeg ei fys ar draws y gwahanol weadau sydd arni.   Mae'r plant yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain yn effeithiol ac yn dangos i ni sut maent yn cael llawer o hwyl yn mynd ar ôl swigod a'u popio â'u bys.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff ymagwedd gynnes a chyfeillgar at roi gofal ac maent yn ymhyfrydu yng nghyflawniadau’r plant.

Mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ond nid ydynt bob amser yn gweithredu pob polisi yn addas. Er enghraifft, nid yw’r gweithdrefnau newid clytiau yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol na'r polisi ar gyfer y lleoliad. Mae hyn oherwydd nad oedd yr unigolyn cyfrifol a'r unigolyn â gofal wedi sicrhau bod digon o gyfarpar diogelu personol i'r staff ei ddefnyddio ac nad oedd sebon i'r staff ymolchi eu dwylo. Ers ein hymweliad mae'r unigolyn cyfrifol wedi cymryd camau priodol ac wedi cyflwyno tystiolaeth i gadarnhau bod yr holl offer angenrheidiol ar gyfer newid clytiau ac ymolchi dwylo wedi cael sylw. Mae’r staff yn cofnodi eu presenoldeb eu hunain a phresenoldeb y plant yn briodol.

Mae'r staff yn annog y plant i ymolchi eu dwylo â sebon a dŵr ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac mae’r rhain yn cael eu llofnodi gan rieni i gydnabod eu bod yn cael eu hysbysu. Nid yw’r ymarferion tân yn cael eu cynnal yn gyson ar adegau addas. Mae gwelliannau wedi'u gwneud fel bod gan y plant fynediad hawdd i'r man chwarae awyr agored a ddefnyddir yn aml. Dywedodd staff eu bod wedi gweld manteision a gwelliannau sylweddol i lesiant y plant ers caniatáu iddynt fynd allan i’r awyr agored pan ddymunant. Dywedasant wrthym eu bod wedi gweld rhyngweithiadau gwell rhwng y plant a'u bod yn cydweithredu wrth chwarae gyda'i gilydd.

Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r ffordd y mae staff yn rhyngweithio â’r plant. Maent yn siarad â hwy ar lefel sy'n briodol i'w hoedran ac maent yn hawdd mynd atynt. Mae’r staff wedi gweithio’n galed i wella eu harfer a’u dealltwriaeth o bolisi rheoli ymddygiad cadarnhaol y lleoliad. O ganlyniad, cyflawnir canlyniadau gwell i'r plant.

Mae’r staff wedi gwella’u gwaith o gynllunio a threfnu gweithgareddau i ddatblygu chwarae a dysgu’r plant yn dda. Maent wedi trefnu ardaloedd dysgu mewn modd deniadol gydag ystod o wahanol bropiau gan gynnwys rhai wedi'u gwneud allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn cynorthwyo'r plant i ddatblygu eu dychymyg a’u sgiliau creadigol yn gadarnhaol ac i gyfarwyddo eu chwarae eu hunain yn llwyddiannus.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae a dysgu. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n agos bob amser.

Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hybu annibyniaeth y plant ac mae mynediad rhydd i'r awyr agored wedi'i drefnu'n dda. Mae teganau ac adnoddau yn addas ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae gan y plant ddodrefn o faint priodol.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac mae gwaith celf plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol. Mae cyfleusterau storio dan do yn briodol ac yn hygyrch i blant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn codi ymwybyddiaeth plant o'r byd o'u cwmpas trwy ddarparu ystod o wahanol ddoliau sy'n eu helpu i ddysgu am wahanol ddiwylliannau.

Mae cynllun gwell yr ardal chwarae yn galluogi'r plant i wneud dewisiadau yn effeithiol. Mae meysydd dysgu wedi'u trefnu mewn modd deniadol ac mae adnoddau naturiol i ddatblygu sgiliau synhwyraidd a hunanymwybyddiaeth y plant. Cyflwynwyd deunyddiau wedi'u hailgylchu i helpu'r plant i ddatblygu eu dychymyg.

Mae'r ardal chwarae awyr agored wedi gwella. Mae'r ardal yn lân ac wedi'i chyflwyno'n dda gydag ystod o wahanol adnoddau i ddatblygu chwarae corfforol y plant. Er enghraifft, llithren, cerbydau pedal, cylchoedd hwla, deunyddiau adeiladu a pheli i gynorthwyo cydsymudedd llaw a llygad. Mae'r blychau dŵr yn lân ac yn llawn teganau diddorol i ddatblygu chwarae. Tynnwyd rhai o'r gwrthrychau oddi ar y wal a oedd wedi dirywio oherwydd y tywydd. Dywedodd yr unigolyn â gofal wrthym ei fod yn aros am fwy o adnoddau newydd i gynorthwyo gwelliannau pellach.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i greu canlyniadau gwell i blant. Fodd bynnag, mae rhai agweddau y mae angen eu datblygu ymhellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwella'r datganiad o ddiben, sydd bellach yn rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Fodd bynnag, nid yw'n nodi faint o blant y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i ofalu amdanynt. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol. Er enghraifft, pan gaeodd y lleoliad dros dro oherwydd salwch staff.

Nid oes gan yr unigolyn cyfrifol wiriad gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS) cyfredol addas er mwyn bodloni gofynion. Nid oedd yr unigolyn â gofal wedi diweddaru'r wybodaeth yn ffeil un plentyn i gadarnhau'r holl wybodaeth ofynnol. Gwelsom dystiolaeth hefyd nad oedd y bobl a oedd yn rhedeg y lleoliad wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol i sicrhau addasrwydd aelod o staff. Ers yr arolygiad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi mynd i'r afael â'r mater hwn ac wedi cyflwyno'r wybodaeth ofynnol i AGC.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi cynnal sesiynau goruchwylio staff ac mae targedau a chanlyniadau wedi'u cofnodi'n glir. Mae arfarniadau yn yr arfaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo yn eu rôl a dywedasant fod yr unigolyn cyfrifol wedi eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o arferion, polisïau a gweithdrefnau gofal plant.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trafod y defnydd a wneir o rai o'r cyfleusterau a rennir yn briodol gyda'r ysgol letyol er mwyn osgoi camreoli'r ardaloedd hyn. Er enghraifft, sicrhau bod digon o offer newid clytiau ar gael. Mae rhai eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi dod i ben. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gasglu syniadau ar sut i greu canlyniadau gwell i blant.

## Argymhellion i fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Sicrhau bod yr holl wrthrychau ar y wal a oedd wedi treulio o achos y tywydd yn yr ardal awyr agored yn cael eu tynnu

A2: Cyfathrebu'n rheolaidd â'r ysgol letyol ynglŷn â defnyddio cyfleusterau a rennir er mwyn gwella trefniadaeth a rheolaeth yn y meysydd hyn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rheoliad 30: Cadw cofnodion: Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 30, cadw cofnodion. Mae hyn oherwydd nad yw'r holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chasglu yng nghofnodion unigol y plant. Y dystiolaeth: Nid oedd cofnod wedi'i ddiweddaru o'r amseroedd / dyddiau y mae rhai plant yn mynychu'r lleoliad ac nid oedd manylion cyswllt eu meddyg teulu wedi'u cwblhau'n llawn. Yr effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â phlant wedi cael ei chasglu i sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu'n briodol gan y rhai sy'n gofalu amdanynt. | Ni chyflawnwyd |
| 25 | Rheoliad 25: Peryglon a diogelwch: Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 25 peryglon a diogelwch. Mae hyn oherwydd nad oedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn cael eu gweithredu'n | Ni chyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithiol mewn perthynas ag ymolchi dwylo, gweithdrefnau newid clytiau, a sicrhau bod cyfarpar priodol ar gyfer cynnal cymorth cyntaf. Y dystiolaeth: Nid oedd y staff yn dilyn polisi'r lleoliad ar gyfer newid clwt, nid oedd ganddynt y cyfarpar diogelu personol ac nid oedd sebon hylif yn yr ardal hon i staff ymolchi eu dwylo ar ôl newid clwt plentyn. Nid oedd holl gynnwys y blwch cymorth cyntaf yn gyfredol. Yr effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau a diogelwch cywir yn unol â pholisïau'r lleoliad i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac nad ydynt yn cael eu datguddio i groes-heintio. | |
| 6 | Rheoliad 6: Addasrwydd yr unigolyn cofrestredig: Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 6, addasrwydd yr unigolyn cofrestredig. Mae hyn oherwydd nad oedd gan yr unigolyn cyfrifol wiriad a thystysgrif cofnod troseddol manwl gyfredol. Y dystiolaeth: Roedd gwiriad a thystysgrif cofnod troseddol manwl yr unigolyn cyfrifol wedi dod i ben ar 7 Medi 2021. Yr effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi bodloni gofynion trwy ddarparu tystysgrif cofnod troseddol manwl gyfredol i Weinidogion Cymru i ddarganfod ei addasrwydd i reoli lleoliad gofal dydd. | Ni chyflawnwyd |
| 20 | Rheoliad 20 (1) Diogelu a hyrwyddo lles. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| 38 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn gyson. Nododd yr arolygiad blaenorol nad oedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn gyson ac nad oedd canlyniad y weithdrefn yn cael ei gofnodi. Yn ystod yr arolygiad, dangosodd yr unigolyn â gofal y templedi cofnodi newydd y mae hi wedi'u creu, ond ni chynhaliwyd ymarfer tân. | Newydd |
| 31 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol. | Newydd |
| 15 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi gwella'r datganiad o ddiben, sydd bellach yn rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Fodd bynnag, nid yw'n nodi faint o blant y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i ofalu amdanynt. | Newydd |
| 28 | Rheoliad: Addasrwydd y gweithwyr: Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 28, addasrwydd gweithwyr. Mae hyn oherwydd nad yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn y ffeiliau staff i ddarganfod addasrwydd yr unigolyn. Y dystiolaeth: Ni chafwyd ail eirda, nid oedd ffotograff yr unigolyn yn addas i gael ei ddilysu, nid oedd cofnod o gyfnod sefydlu'r unigolyn, na chofnod o unrhyw sesiwn oruchwylio a ddigwyddodd. Yr effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chasglu i ddarganfod addasrwydd yr unigolyn i ofalu am blant. | Cyflawnwyd |
| 15 | Rheoliad 15: Datganiad o ddiben: Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 15, y datganiad o ddiben. Mae hyn oherwydd nad oedd wedi cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i roi adlewyrchiad cywir o'r lleoliad. Y dystiolaeth: Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ganlynol: datganiad ar oedrannau, niferoedd a rhyw’r plant; datganiad ar yr ystod o anghenion i’w diwallu sydd gan y plant perthnasol; datganiad ar delerau ac amodau; manylion y trefniadau i adolygu'r datganiad o ddiben ac i hysbysu AGC am newidiadau i'r gwasanaeth cyn pen 28 diwrnod; arferion; trefniadau ar gyfer delio ag argyfwng; a manylion anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill yn yr adeilad. Yr effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn y datganiad o ddiben i sicrhau bod gan rieni'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | dewis gwybodus am y lleoliad gofal plant sydd ei angen arnynt. | |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/03/2022'